Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board




# Diweddariad am y brechlyn
# Vaccination Update



*Cylchlythyr Wythnosol* *Weekly Newsletter*

CYHOEDDIAD 33: wythnos 31/08/2021


Rydym bellach wedi brechu 89% o boblogaeth oedolion y Bwrdd Iechyd gyda dosau cyntaf ac mae 85% o'n poblogaeth dros 18 oed wedi cael dau ddos.

## Hwyl fawr Trecelyn... helô Pontllanfraith!

Mae'r ganolfan brechu torfol yn cau yng Nghanolfan Hamdden Trecelyn yr wythnos hon ac yn symud i Ganolfan Hamdden Pontllanfraith. Bydd clinigau cleifion yn ailddechrau ar 2 Medi 2021.

Ers dechrau yng nghanolfan brechu torfol Trecelyn ar 30 Ionawr 2021, mae dros 157,000 o frechlynnau wedi cael eu rhoi, sy'n gyflawniad aruthrol ac yn dyst i ymdrechion y rheiny ynghlwm. Mae'r ganolfan brechu torfol wedi gweithio'n dda iawn ac wedi cael derbyniad da gan y bobl hynny sydd wedi mynychu. Rydym yn hynod ddiolchgar i staff y ganolfan hamdden, sydd wedi bod yn allweddol wrth gefnogi'r gweithrediad llyfn yn Nhrecelyn gan gyflawni dyletswyddau maes parcio a chwrdd a chyfarch, ac i Ysgol Trecelyn a roddodd y cyfle i ni ddefnyddio'r neuadd chwaraeon ar gyfer y rhaglen brechu.

Edrychwn ymlaen at barhau ein partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wrth sefydlu'r ganolfan brechu torfol ym Mhontllanfraith.



## FFIGYRAU BRECHU

**Cyfanswm nifer y brechlynnau Covid-19 wedi eu rhoi ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd (cyfuniad o'r dos cyntaf a'r ail ddos)**

**858,028**

Cyfanswm y dos cyntaf 442,012

Cyfanswm yr ail ddos 416,016

| | | |
|---|---|---|
| Pobl 65 oed a'n hŷn | 96% | 95% |
| Grŵp 6 (Agored i Niwed) | 91% | 88% |
| Pobl 60-64 mlwydd oed | 94% | 93% |
| Pobl 55-59 mlwydd oed | 93% | 91% |
| Pobl 50-54 mlwydd oed | 91% | 89% |
| Pobl 40-49 mlwydd oed | 87% | 84% |
| Pobl 30-39 mlwydd oed | 81% | 75% |
| Pobl 18-29 mlwydd oed | 80% | 70% |

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus.
*Gyda'n gilydd byddwn yn cadw Gwent yn ddiogel.*

## Ddim yn gadael unrhyw un ar ôl...

Mae'r Rhaglen Brechu Torfol yn parhau i gefnogi'r rheiny nad ydynt wedi cael eu brechlyn eto am resymau amrywiol. Cynhaliwyd clinigau yng Nghanolfan Ringland yng Nghasnewydd ac Ysgol Gyfun Abertyleri a ddenodd griw da o bobl.




Mae Monty, bws Wallich wedi bod allan hefyd yn ardaloedd awdurdod lleol Caerffili a Thorfaen i roi brechlynnau 1af, lle mae nifer wedi manteisio ar y clinigau hyn.

Os ydych chi am ba bynnag reswm heb gael eich brechlyn cyntaf eto, cysylltwch neu os gwnaethoch optio allan ac rydych wedi newid eich meddwl, cysylltwch â'r tîm archebu ar 0300 3031373.

Mae'r clinigau allgymorth yn y dyfodol fel a ganlyn:

- 6 Medi yn y maes parcio yng nghanol Pentref Abersychan, Stryd yr Undeb, Torfaen NP4 7EW
- 12 Medi 2il frechlyn yng Nghanolfan Mileniwm y Pîl, Pilgwenlli, Casnewydd NP20 2GH
- 27 Medi ym Maes Parcio'r Gwaith Haearn, Torfaen NP4 9RL

### Pobl ifanc sy'n troi'n 16 oed

Gallwn gadarnhau wrth i bobl ifanc droi'n 16 oed, y byddwn yn cysylltu â nhw i'w gwahodd am frechlyn drwy lythyr.

Unrhyw un sy'n 16 oed neu'n hŷn neu mae 8 wythnos wedi pasio ers eich dos cyntaf, gallwch nawr alw heibio unrhyw un o'n clinigau brechu i gael eich brechlyn.

I ganfod ymhle a phryd mae ein clinigau arfaethedig, ewch i: https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/not-vaccinated-yet/

Ffoniwch 0300 3031373 i drefnu apwyntiad.

Am ragor o wybodaeth, ac i ganfod ym mha grŵp blaenoriaeth ydych chi, ewch i: https://www.gov.uk/government/publications/priority-groups-for-coronavirus-covid-19-vaccination-advice-from-the-jcvi-30-december-2020

Cyhoeddir ffigyrau brechu dyddiol gan Iechyd Cyhoeddus ar eu gwefan: https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary

Mwy a wybodaeth a Chwestiynau Cyffredin ar ddarpariaeth, cymhwysedd a diogelwch y brechiad, ewch i: https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/about-the-vaccine/

**Ymunwch â'r miloedd sydd wedi cael eu brechu... Ffoniwch 0300 303 1373 a byddwch yn cael cynnig apwyntiad dos cyntaf o fewn 72 awr.**